**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Finance and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF/JH/1863/15

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd, Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

30 Mehefin 2015

Annwyl Jocelyn,

Diolch i chi am adroddiad y Pwyllgor ar ei ymchwiliad i Gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru.

Mae'r ymchwiliad hwn yn un cadarnhaol ac adeiladol yn fy marn i, ac mae'n gyson â syniadau Llywodraeth Cymru ynghylch pwy fyddai yn y sefyllfa orau i gasglu a rheoli trethi datganoledig. Mae'r argymhellion yn tynnu sylw at nifer o gymhlethdodau y bydd angen mynd i'r afael â hwy wrth i ni barhau ar ein taith trethi datganoledig, yn enwedig yr angen i sicrhau bod costau cyhoeddedig ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yn seiliedig ar dystiolaeth hyddysg a chadarn.

Derbyniaf yr argymhellion yn gyffredinol ac edrychaf ymlaen at ein cydweithrediad parhaus yn y dyfodol.

Amgaeaf nodyn yn Atodiad A sy'n ymateb i bob argymhelliad yn yr adroddiad.

Yn gywir iawn,

Jane

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@Cymru.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Atodiad A

**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyllid, sef Casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru**

**Argymhelliad 1 - Mae'r Pwyllgor yn siomedig nad ymddengys y gofynnwyd i'r ddau brif gorff casglu trethi gyflwyno achos busnes gyda chostau manwl mewn perthynas â chasglu trethi datganoledig, ac mae'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion am unrhyw wybodaeth am gostau sydd ar gael ar gyfer pob opsiwn dros yr haf ar y cyd â'r Bil ar gasglu trethi.** □

Derbyniaf yr angen i fod yn dryloyw ynghylch costau ar gyfer Awdurdod Cyllid Cymru ac rwy'n ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth gadarn am gostau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod y broses graffu ar gyfer y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru). Nid yw'n bosibl ar y cam hwn i lunio amcangyfrif cadarn o gostau sefydlu neu weithredu Awdurdod Cyllid Cymru.

Yn ystod yr hydref, cyn dadl Cam 1 ar y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), byddaf yn rhoi diweddariad i'r Cynulliad ar waith i sefydlu trefniadau casglu a rheoli. Caiff hyn ei lywio gan drafodaethau manwl ar drefniadau partneriaeth â CThEM a Cyfoeth Naturiol Cymru dros y misoedd i ddod, a bydd yn cynnwys amcangyfrifon cychwynnol o gostau sefydlu a gweithredu.

**Argymhelliad 2 - Gan nad oes costau ar gael, ni all y Pwyllgor wneud argymhelliad cadarn ynghylch pwy ddylai gasglu'r trethi ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddem yn argymell bod y gwaith o gasglu trethi yn cael ei wneud yn raddol am yr ychydig flynyddoedd cyntaf ar ôl datganoli trethi yng Nghymru. Dylai hyn roi cyfle i sicrhau cysondeb yn yr ychydig flynyddoedd cyntaf o'r trethi newydd yng Nghymru, ond bydd yn sicrhau bod cwmpas ar gyfer newid yn y dyfodol, naill ai pan fo Llywodraeth Leol Cymru mewn sefyllfa well ar ôl aildrefnu neu pan fo Awdurdod Cyllid Cymru wedi datblygu'r sgiliau, y ddealltwriaeth a'r arbenigedd i gasglu trethi yn effeithiol gan amharu cyn lleied â phosibl ar y trethdalwr.**

Cadarnhaf fy mod yn bwriadu adolygu trefniadau ar gyfer casglu a rheoli trethi Cymru ar ôl tair i bum mlynedd o weithredu gan fod ein tirwedd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn newid ac efallai y bydd hyd yn oed fwy o newidiadau yn y setliad datganoli. Bydd yr adolygiad hwn yn galluogi Awdurdod Cyllid Cymru sydd newydd gael ei sefydlu i adolygu ei weithrediad presennol, y gwasanaeth a ddarperir i drethdalwyr Cymru a gwerthuso'r potensial a'r posibiliadau yn y dyfodol.

**Argymhelliad 3 - Cred y Pwyllgor, er y dylid ymgynghori ag adrannau gwario ar bolisïau trethu, rhaid i'r Gweinidog Cyllid reoli'r system drethi yng Nghymru mewn ffordd integredig. □ Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried adolygu polisïau trethu sy'n rhan o sawl portffolio gweinidogol, gyda'r cyfrifoldeb am drethi datganoledig yn rhan o bortffolio'r Gweinidog Cyllid.**

Mae gennyf gyfrifoldeb cyffredinol am bolisi trethi, i gadarnhau cysondeb â'r pedair egwyddor allweddol sy'n sail i ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â pholisi trethi. Mae hyn yn cynnwys y trethi datganoledig cyfredol, Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi, ac rwyf wedi gweithio a byddaf yn parhau i weithio'n agos gyda'r Gweinidogion perthnasol i ddatblygu'r polisi sy'n gysylltiedig â'r rhain. Bydd

gennyf brif gyfrifoldeb Gweinidogol am unrhyw drethi pellach a gaiff eu datganoli, ac unrhyw drethi newydd i Gymru.

**Argymhelliad 4 - Mae'r Pwyllgor yn argymell y caiff rhanddeiliaid eu cynrychioli ar fwrdd Awdurdod Cyllid Cymru.** □

Fel y crybwyllir ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru, mae opsiynau ar gyfer trefniadau arwain a llywodraethu i Awdurdod Cyllid Cymru wedi cael eu hystyried, gan gynnwys y modelau a ddefnyddir gan CThEM a Revenue Scotland. Rydym hefyd wedi edrych ar arfer gorau wrth sefydlu Corff Sector Cyhoeddus newydd yng Nghymru.

Roedd y mwyafrif o'n hymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn gefnogol i'r trefniadau arwain a llywodraethu arfaethedig ar gyfer Awdurdod Cyllid Cymru h.y. y dylai'r Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd fod yn benodiadau cyhoeddus a wneir yn unol ag egwyddorion Nolan ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ac yn gyson ag arfer gorau yng Nghymru.

O fewn hyn, byddaf yn ceisio sicrhau y cynrychiolir cymysgedd priodol o sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd ar y bwrdd.

**Argymhelliad 5 - Mae'r Pwyllgor yn argymell na ddylai dull casglu trethi Awdurdod Cyllid Cymru amrywio o'r DU oni bai bod rhesymau clir o ran pam y dylai dull Cymru fod yn wahanol.** □

Ein dull gweithredu, fel y nodir yn y Papur Gwyn ar Gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru, yw y bydd y trefniadau yng Nghymru yn disodli prosesau ac egwyddorion gweithredol presennol y DU, os nad oes rheswm polisi dros ddargyfeirio o ddeddfwriaeth gweinyddu trethi'r DU (er enghraifft, ar sail effeithiolrwydd neu effeithlonrwydd neu ffocws ar flaenoriaethau Cymru). Bydd y dull gweithredu hwn yn helpu i ddarparu cysondeb gweithredol ar gyfer busnes trawsffiniol, sef mater a godwyd gyda ni yn ystod ein hymgynghoriad a'n hymgysylltiad â busnesau a rhanddeiliaid.

**Argymhelliad 6 - Mae'r Pwyllgor yn argymell er mwyn sicrhau bod Awdurdod Cyllid Cymru yn gweithredu'r system drethi mewn ffordd dryloyw y dylai fod yn atebol yn uniongyrchol i'r Cynulliad gydag un o Bwyllgorau'r Cynulliad yn gwneud y gwaith craffu. Dylai hyn gynnwys adroddiadau gweithredu bob chwe mis yn arwain at 2018, gan ddechrau ar unwaith.** □

Roedd cefnogaeth gyffredinol yn y Papur Gwyn ar Gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru ar atebolrwydd a threfniadau adrodd a chaiff y rhain eu cynnwys yn y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) sydd ar droed.

Yn gyntaf, bydd angen i Awdurdod Cyllid Cymru baratoi a gosod copi o Siarter o safonau a gwerthoedd y bydd yn anelu at ei chyflawni wrth ddelio â threthdalwyr ac eraill wrth gyflawni ei swyddogaethau a Chynllun Corfforaethol sy'n cynnwys amcanion, canlyniadau y gellir mesur amcanion yn eu herbyn a manylion y gweithgareddau y bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn ymgymryd â hwy.

Bydd gofyn i Awdurdod Cyllid Cymru baratoi a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol bob blwyddyn a gosod copi gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd gofyn iddo hefyd baratoi cyfrifon ar gyfer yr Awdurdod a Datganiad Treth o'r swm o arian a gasglwyd ganddo yn ystod unrhyw flwyddyn ariannol. Yna rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru

archwilio, ardystio ac adrodd ar y cyfrifon a'r Datganiad Treth a gosod copïau ardystiedig o'r ddau a'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ar y cyd â'r Pwyllgor Cyllid, rwy'n fodlon ystyried sut y gallem gyflwyno adroddiadau ar hynt y broses o roi trefniadau casglu a rheoli trethi datganoledig i Gymru ar waith ac ystyried sut y gallai'r rhain fod yn gyson â gofynion adrodd cysylltiedig eraill, er enghraifft, adroddiadau ar beth sydd angen ei roi ar waith o dan adran 23 o Ddeddf Cymru 2014.

**Argymhelliad 7 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad arall ar ei hystyriaeth o argymhelliad 7 (ystyried sefydlu comisiwn ariannol i Gymru) yn yr adroddiad ar arfer gorau mewn prosesau cyllidebol.** □

**Argymhelliad 8 - Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai penderfyniad ynghylch creu comisiwn ariannol i Gymru ganiatáu digon o amser iddo gael ei weithredu'n briodol erbyn 2018.** □

Fel y nodwyd yn yr ymateb i argymhelliad 7 o'r adroddiad ar Arfer Gorau mewn Prosesau Cyllidebol, bydd y Llywodraeth yn ystyried yr holl opsiynau ar gyfer dilysu a chraffu ar y rhagolygon treth sy'n cyfrannu at ei chynlluniau cyllidebol. Bydd penderfyniadau ynghylch casglu a rheoli trethi yn cael rhywfaint o effaith ar yr ystyriaethau hynny. Bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod trefniadau ar waith mewn da bryd i weithredu trethi newydd Cymru yn 2018. Yn y cyfamser, mae Trysorlys Llywodraeth Cymru yn monitro datblygiadau yn yr Alban yn ofalus mewn perthynas â'i chomisiwn cyllidol ac yn parhau i ddatblygu cydberthnasau gwaith da â'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

**Argymhelliad 9 - Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid ystyried sut y gellir cyfleu datganoli trethi yn glir i ymarferwyr yng Nghymru a Lloegr, a dylai Awdurdod Cyllid Cymru fod â brand clir er mwyn sicrhau bod ganddo hunaniaeth glir â'r cyhoedd.** □

Byddaf yn gosod y darn cyntaf o ddeddfwriaeth yn ymwneud â Chasglu a Rheoli Trethi ar gyfer trethi datganoledig maes o law: hwn fydd y cyntaf o dri darn o ddeddfwriaeth a fydd yn gwella'r pwerau i gasglu Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru. Mae deddfwriaeth dda yn hanfodol i gyfleu'r eglurder sy'n ofynnol i alluogi ymarferwyr a threthdalwyr i ymgysylltu ag Awdurdod Cyllid Cymru. Yn ogystal, bydd Awdurdod Cyllid Cymru hefyd yn llunio canllawiau ategol clir.

Caf gyfarfodydd rheolaidd â'm Grŵp Cynghori ar Dreth, sy'n cynnwys tri arbenigwr a benodwyd, a chynrychiolwyr o Gydffederasiwn Diwydiant Prydain, Ffederasiwn Busnesau Bach, Cymdeithas y Cyfreithwyr, Sefydliad y Cyfarwyddwyr, Cyngres yr Undebau Llafur, Sefydliad Bevan, CGGC. Mae Trysorlys Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd Fforwm Trethi rheolaidd ag ymarferwyr, a bydd y trafodaethau hyn cyn bo hir yn ymdrin â'r modd y gall Awdurdod Cyllid Cymru gyfathrebu'n effeithiol â threthdalwyr Cymru, eu hasiantau, a'r rhanddeiliaid ehangach sydd â diddordeb yn hyn.

Bydd yn bwysig i Lywodraeth Cymru ddatblygu cydberthynas waith dda â CThEM i reoli'r cyfnod trosiannol a fydd yn arwain at fis Ebrill 2018 ac yn dilyn hynny. Mae llawer o wersi i'w dysgu gan Lywodraeth yr Alban a Revenue Scotland. Dylid hefyd nodi safbwyntiau ymarferwyr a threthdalwyr yr Alban.

**Argymhelliad 10 - Wrth ystyried yr opsiynau ar gyfer annog cydymffurfiad â threthi a datrys anghydfodau treth, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried defnyddio arbenigedd llywodraeth leol a hyblygrwydd arferion mewn perthynas ag adfer treth.** □

Rwyf wedi cytuno â CLILC i sefydlu gweithgor ar y cyd fel y gellir rhannu gwybodaeth ac arbenigedd gweinyddu treth ar draws llywodraethau lleol a chanolog.

Edrychaf ymlaen at weithio gydag awdurdodau lleol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf a thu hwnt i hynny, gan fanteisio ar eu gwybodaeth am drethi a'u harbenigedd gweithredol.

**Argymhelliad 11 - Mae'r Pwyllgor yn argymell y defnyddir y system o ddefnyddio dull amgen o ddatrys anghydfod, ac y dylai gynnwys cyswllt uniongyrchol â threthdalwyr cyn ystyried cosbau neu drafodion drud mewn llys.** □

Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn gallu defnyddio trefniadau Datrys Anghydfodau Amgen os bydd o'r farn y byddai dull gweithredu o'r fath yn briodol er mwyn helpu i ddatrys anghydfod gyda threthdalwr yn gyflym.

Mae Pennod 6 o Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru yn nodi cynigion ar gyfer trefniadau i ddatrys anghydfodau treth. Un o'n hamcanion polisi allweddol fydd ceisio sicrhau na fydd anghydfodau'n codi yn y lle cyntaf.

Bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Awdurdod Cyllid Cymru sicrhau ei fod yn gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf a meithrin diwylliant o gydweithredu â threthdalwyr i ddatrys anghydfodau os byddant yn codi. Wrth gyflawni hyn, bydd angen i Awdurdod Cyllid Cymru gefnogi trethdalwyr drwy roi canllawiau a phrosesau clir a hygyrch ar waith. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau sy'n cynnig egluro penderfyniadau mewn ffordd ddiamwys ac amserol.

Ni fydd bob amser yn bosibl osgoi anghydfod ac felly mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai deddfwriaeth, er budd tegwch a thryloywder, roi'r hawl i drethdalwyr gael adolygiad (proses fewnol Awdurdod Cyllid Cymru) a/neu apelio yn erbyn rhai penderfyniadau a wneir gan Awdurdod Cyllid Cymru (i Dribiwnlys annibynnol). Un o'r egwyddorion allweddol fydd ceisio dod o hyd i ddatrysiad nad yw'n wrthdrawiadol pan fydd anghydfod yn codi.

Os bydd anghytuno ynghylch penderfyniad gan Awdurdod Cyllid Cymru, bydd yn fuddiol i bawb dan sylw ddatrys pethau'n gyflym er mwyn dileu ansicrwydd ac osgoi costau drud o bosibl. Sefydlir dulliau datrys yn gynnar a fydd yn cynnwys: trafodaeth anffurfiol â phenderfynwyr Awdurdod Cyllid Cymru i geisio datrys yr anghydfod; adolygiad mewnol lle y gall trethdalwr ofyn i swyddog annibynnol ailystyried y penderfyniad ac wrth wneud hynny, ystyried unrhyw wybodaeth newydd sydd wedi dod i law; a'r defnydd o drefniadau Datrys Anghydfodau Amgen, lle caiff trydydd parti annibynnol ei gynnwys er mwyn helpu i ddatrys anghydfod.